# PANEL PENODIADAU ARBENNIG (PRIF WEITHREDWR)

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Prif Weithredwr) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ebrill 14 2009 am 4.00 p.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr E W Williams (Cadeirydd), J Butterfield, C M Evans, H H Evans, R W Hughes, I Gunning, M M Jones, P J Marfleet, J Thompson-Hill.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Personél, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddog Personél (L M Jones), L Judd (Gatenby Sanderson), J Brooks (Ymgynghorwr).

## YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd A G Pennington

**RHAN 1**

**1 MATERION BRYS**

Nid oedd yna unrhyw faterion brys.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig (Prif Weithredwr) a gynhaliwyd ar Fawrth 27 2009 (a gylchredwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar Fawrth 27 2009 yn gofnod cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd.*

**3 EITEMAU BRYS**

Nid oedd yna unrhyw eitemau brys

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 1001(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 14 a 15 Rhan 4 Atodlen12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

## 4 PENODIAD PRIF WEITHREDWR – LLUNIO RHESTR FER

Adroddodd Mr L Judd (Gatenby Sanderson) a Mr J Brooks (Ymgynghorwr) eu bod wedi cynnal cyfweliadau gyda naw o'r un ar ddeg o ymgeiswyr a ddaeth drwy'r rhestr fer (roedd dau wedi tynnu'n ôl) ac fe ddarparwyd y Panel ag Adroddiad Asesiad Rhagarweiniol yn crynhoi priodoleddau allweddol pob ymgeisydd. Fe ymatebodd Mr Judd a Mr Brooks i gwestiynau'r Panel.

Fe ystyriodd y Panel briodoleddau pob ymgeisydd a phenderfynwyd gwahodd pump o'r ymgeiswyr i ddod i'r Ganolfan Asesu.

***PENDERFYNWYD***

*(i)* *bod ymgeiswyr 7, 9, 10, 13 a 15 yn mynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu a Chyflwyno i'r Cyngor Llawn a chyfres o baneli.*

*(ii)* *yn dilyn casgliad y Ganolfan Asesu, cyflwyniad i'r Cyngor Llawn a chyfres o baneli, bod y Panel Penodiadau Arbennig yn ailymgynnull am 5 p.m. dydd Llun Ebrill 20 2009 i nodi'r ymgeiswyr hynny sydd i fynd ymlaen i gyfweliad pellach ar ddydd Mawrth Ebrill 21 2009.*

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 p.m.